Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 9. Rhif 3.] MAWRTH, 1909. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
Cyfarfodydd Pantdefaid.
(Gyda Darluniau).
Ymson y Myfyriwr.
Adgof uwch Anghof.
Coll Gwynfa Miltwn
J. Islan Jones, B.A.
Tu Hwnt i'r Llen.
Deifes.
Congl yr Awen.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y rofed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

W.J.E., Caerfyrddin; J.D., Croesgoch; Parch. D.G.R., Penybont; J.L., Bersham; E.D., Aberdar; D.D., Felinfach; T.D.T., West Punxtawney, U.D.A.; P.P., Castellmawr; J.J.W., Trebanos.

Ordnance Survey Maps of Farms, &c., supplied at Government Prices, by J. D. Lewis, YMOFYNYDD Office, Llandyssul.

NEW NOVEL BY ALLEN RAINE.

'Neither Storehouse nor Barn,'

6d. each, by Post, 8d.

Yn awr yn barod, Argraffiad Newydd o **MYFYRDOD MEWN MYNWENT** gan **DAVIS CASTELLHYWEL**, wedi ei olygu, a chyda Nodiadau gan **SARNICOL.** Pris 2g., trwy y Post, 2½g.

Archebion i'w hanfon i Swyddfa'r YMOFYNYDD, Llandyssul.

ROBIN THE NEW STARCH

Reckitt's Blue.

ZEBRA GRATE POLISH.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1909. [CYF. IX. RHIF 3.

AR EDYN FFYDD.

Y BYWYD UCHEL.

TYR'D, fy ffrynd, o nudd y glyn,
Dring i fyny lethrau'r bryn ;
Cei o law yr awel faim,
Ac o fin yr hedydd salm.
Ar uchel-dir moes a rhin,
Hoender ddaw i'th enaid blin ;
I'th wasgedig fron luddedig,
Hedd y mynydd fydd fel gwin.

Erys dryg-sawr pechod hyll
Lle bo'r cysgod dwfn, a'r gwyll ;
Ond ar ben y bannau chwyth
Peraidd chwäon purdeb fyth.
Daw temtasiwn ar ei thro
Yma fel i bob rhyw fro,
Ond llwyr ballu wna ei gallu,—
Eirf y Gwir a'i gŷr ar ffo.

Mawr feddylwyr oesau hen
Yma roddant it' eu gwên ;
Cei dy dywys pan yn wan
Ganddynt ar dy ffordd i'r lan.
Hyd rodfeydd myfyrdod mad,
Llewyrch lamp efengyl rad
Iti roddir,—fe'th wahoddir
Fyth i uwch ac uwch ystad.

Rhith yw sylwedd byd y llawr,—
Traidd i'r Anweledig mawr,
Gwlad y drychfeddyliau pur,
Cartref cariad heb un cur.
Eden o ddedwyddyd yw
Bywyd uchel mynydd Duw ;
Os gwnei nesu at yr Iesu,
Yn y Nef trwy'th oes cei fyw.

Cwrtnewydd. CLEDLYN.

CYFARFODYDD PANTDEFAID.

EDRYCHWN yn mlaen gyda llawer o fwynhad yn gymysgedig a phryder at y cyfarfodydd hyn. Cyfyd y mwynhad ar un llaw oddiar y ffaith y cawn y pleser o wrando, a gweled, a chymdeithasu



Mr. J. HARRISON.

a haner dwsin, neu efallai ragor, o bersonau mwyaf blaenllaw yr enwad yn Llundain, rhai sydd a son am danynt bron ar bob aelwyd Undodaidd yn Lloegr, ond rhai sydd hyd yn hyn, ag eithrio Mr. Bowie, yn anadnabyddus yn eglwysi Cymreig Ceredigion. Cyfyd y pryder ar y llaw arall, a wnawn ni fel cyfundeb bychan yn Ngheredigion roi iddynt y croesawiad y maent yn haeddu. Y mae pob eglwys sydd genym dan dreth o ddyled i'r Saeson, am gymwynasau na fedrir byth eu talu yn ol, ac apeliwn yn ffyddiog am gael cynrychiolaeth helaeth o bob eglwys, yn enwedig felly y cantorion. Mae rhaglen o donau ac emynau yn y ddwy iaith wedi ei chyhoeddi, ac

hyderwn yr ymgydnabydda pawb a hi, fel y byddo "sain cân a moliant" i'w glywed drwy'r cyfarfodydd. Y mae ein brodyr yn Sir Forganwg hwythau yn prysur barotoi gyfeirbyn a'u cyfarfodydd gynhelir dranoeth, sef y dydd cyntaf o Ebrill, yn Abertawe.

Y mae yn bleser genym gyflwyno darluniau dau o'r cenhadon, sef Mr. John Harrison, Llywydd y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor, a'r Parch. W. G. Tarrant, B.A., Brixton. Y mae Mr. Harrison yn fab i weinidog Undodaidd, ac y mae yn adnabyddus mewn cylchoedd Undodaidd nid yn unig ar gyfrif ei haelioni mawr,



Parch. W. G. TARRANT, B.A.

ond hefyd am y gwasanaeth personol rydd i'r achos. Y mae yn gerddor uwchraddol, yn gyfansoddwr a chwareuwr, a gobeithio y caiff glywed "yr hen hwyl Gymreig" yn nghanu ein cyfarfodydd. Deallwn iddo yn ddiweddar gael ei anrhydeddu gan Ymherawdwr Austria, a'i wneud yn Farchog Urdd Francis Josef, "am wasanaeth amlwg i dlodion Austro-Hungary." Y mae hefyd yn Farchog Urdd Anrhydedd Ffrainc; ac Urdd Leopold Belgium.

Y mae Mr. Tarrant yn un o'n gweinidogion mwyaf llwyddianus, yn bregethwr hyawdl, yn awdwr enwog, yn gyfansoddwr llithrig, ac yn fardd o fri. Bu am ddeng mlynedd yn Olygydd yr *Inquirer*. Gobeithiwn roddi darluniau'r cenhadon eraill yn ein rhifyn nesaf.

YMSON Y MYFYRIWR.

Medd cyflwr dyn ar ol angeu swyn bron anwrthwynebadwy i'r meddwl dynol yn gyffredinol ; a lluosog—aneirif luosog—yw'r damcaniaethau dynol mewn perthynas iddo. Defnyddiaf y gair damcaniaethau am y rheswm na wn i am un gair arall mwy addas. Nid oes le i'r gair gwybodaeth yn y cysylltiad hwn. Ni wyr neb beth sydd ar ol angeu. Yr unig beth fedr dyn ar y goreu wneud yw ffurfio barn am y byd dyfodol yn ngoleuni'r wybodaeth a fedd am y byd presenol, ac yn ngoleuni'r gobaith aniffoddadwy sydd wedi ei blanu yn y fynwes ddynol. Nid yw hyn amgen na dyfalu neu ddamcanu.

O BRAWF O FYWYD DYFODOL

nid oes genym rith—h.y., y fath brawf a foddlonai farnwr mewn llys barn yn ein gwlad ni. Ond er nad yw meddyliau goreu dyn parthed y byd a'r bywyd dyfodol ond dyfaliadau neu ddamcaniaethau, nid bach o beth ydyw ei fod yn meddu'r gallu hwn, neu'r duedd hon. Y mae yn allu neu yn duedd mor gyffredinol fel yr ä yn nghyfeiriad prawf boddhaol o fodolaeth bywyd dyfodol. Ymresymwn y rhaid fod rhyw sylwedd tu cefn i allu neu duedd mor gyffredinol. A dylid meithrin y duedd hon i'r eithaf ar gyfrif y dylanwad fedd meddyldrych dyn am fywyd dyfodol ar ei fywyd presenol. Sylwyd eisoes fod y damcaniaethau dynol mewn perthynas i fywyd dyfodol yn aneirif luosog. Medd pob dyn a feddylia ychydig yn nghylch y mater ryw ddamcaniaeth am y dyfodol, yr hon a wahaniaetha oddiwrth bob damcaniaeth arall. Ond er hyn gellir dos-restru'r damcaniaethau a ddygant debygolrwydd i'w gilydd yn y prif linellau a'u nodweddant i ychydig o ddosbarthiadau. Dyna'r

DDAMCANIAETH BABYDDOL,

gyda'i phurdan a'i huffern a'i nefoedd. Math o gell ganol, allem feddwl, rhwng uffern a nefoedd yw y purdan, yn yr hon y glanheir y rhai a änt iddi o bob pechod maddeuadwy cyn cael derbyniad ir nefoedd. Teflid y rhai euog o bechodau anfaddeuadwy i'r lle poenus —i'r llyn o dân a brwmstan. A gadael allan y purdan, nid oes wahaniaeth mawr rhwng y ddamcaniaeth Babaidd

A'R UN BROTESTANAIDD.

Yn yr olaf nid oes le i burdan. Y fynud yr â dyn trwy yr adwy rhwng y ddau fyd selir ei dynged. Os deiliad uffern ydyw, i uffern yr ä yn unionsyth, ac yno yr erys ; os deiliad nefoedd, ca fynediad uniongyrchol iddi. Rhwng y ddau le y mae gagendor na ellir ei groesi, golwg ar yr hwn a ddiffydd bob gobaith yn mynwes deiliaid

uffern. Am ganrifoedd lawer bu'r ddwy ddamcaniaeth hyn yn wirionedd datguddiedig i'r byd Cristionogol bron yn gyfan. A ydynt yn parhau felly o hyd? Ydynt a nag ydynt. I feddyliau anllythyrenog, na roisant fynud erioed i feddwl am—i sylweddoli—erchryslonrwydd ac afresymoldeb y fath syniad, y mae'r olwg hon ar fywyd dyfodol dyn yn wirionedd diamheuol o hyd; ond i feddyliau a chalonau diwylliedig y mae'r fath syniad yn gabledd ar enw'r Tad perffaith. Hyd yn ddiweddar iawn cyfyngid damcaniaethau parthed y dyfodol i dduwinyddion. Ni fynai'r

Gwyddonwyr wneud dim

ag ef. Iddynt hwy, bron yn ddieithriad, yr oedd cred mewn bywyd dyfodol yn fwy o destyn gwawd nag o ddim arall. Y fath dinc ddiystyrllyd sydd yn hyny o gyfeiriadau ato geir yn ysgrifeniadau gwyddonwyr y ganrif diweddaf—hyd yn agos i'w therfyn. Yn ddiweddar y mae cyfnewidiad mawr yn weladwy, yn y cysylltiad hwn. Y mae erbyn hyn bron yn reol gyffredin fod ein gwyddonwyr mwyaf adnabyddus yn gredinwyr cadarn yn marhad bywyd ar ol angeu. Dyna Syr Oliver Lodge a Syr William Crookes, yr olaf yn ysprydegwr egwyddorol, a'r cyntaf, os nad yn ysprydegwr, eto yn myned mor bell ag addef fod y llen rhyngom a'r byd nesaf wedi dod mor deneu fel y gellir disgwyl adeg yn fuan pan y gellir anfon negesau o un ochr i'r llall. Wrth gwrs, nid yw'r dyn dysgedicaf, doethaf, fel y dywed Ingersoll, yn gwybod mwy am y mater hwn na'r dyn annysgedig. Ond y mae'r ffaith y cyfeiriwyd ati—fod dynion dysgedig fel y rhai a enwyd uchod yn tueddu fwyfwy i gredu mewn bywyd dyfodol—yn werthfawr am y rheswm hwn—ei fod yn brawf nad yw

Gwybodaeth yn elyn i Ffydd a Gobaith.

Er y dygwyd yr egwyddor o ddatblygiad i'r goleu tua chanol y 19eg ganrif, y mae syniadau dynion o feddyliau diwylliedig mewn perthynas i fywyd dyfodol wedi myned trwy chwyldroad—chwyldroad sydd wedi graddol weithio dan seiliau'r hen syniadau am nefoedd ac uffern a thynged dyn ar ol angeu. Nid oes yn y syniad o ddatblygiad ddim a duedda i wneud parhad bywyd yn anghredadwy; yn hytrach, i'r cyfeiriad cyferbyniol y mae ei duedd, fel yr ymddengys i mi o leiaf. Po fwyaf feddyliaf am y syniad o ddatguddiad, cryfaf i gyd y credaf fod bywyd i barhau—fod bywyd yn un gyfres ddiderfyn o ddatblygiadau, ac nid o ddatblygiad a ddygir i derfyn yn angeu. Os nad yw bywyd i barhau, y mae'r bywyd presenol, gyda'i ffwdan a'i drafferth, ei ddioddefiadau a'i boenau, yn wagedd—yn wagedd o wagedd. Yn ngoleuni'r gred yn marhad bywyd yn unig y daw'r

Bywyd presenol yn bwysig.

Diweddaf y llith hon yn y modd a ganlyn. Y mae yn mhob dyn, pan ddaw i'r byd gyntaf, foddion neu elfenau enaid. A dyry ei fywyd

byr yn y byd presenol iddo gyfleusdra i'w meithrin, ac felly i ddod yn enaid byw. Ond gall dyn fyned trwy'r byd heb i'r elfenau hyn gael eu deffroi. Y mae hyn yn bosibl. Os felly dyna derfyn arno yn angeu, ond yn achos yr hwn y mae'r enaid wedi ei ddeffroi nid yw bywyd yn darfod yn angeu, ond y mae Duw wedi darparu cyfleustra iddo ar ol angeu i esgyn yn nghyfeiriad perffeithrwydd. Yn awr angeu ni fydd—nis gall fod, os yw y syniad o ddatblygiad yn wir—un cyfnewidiad yn ansawdd yr enaid—

Cyfnewidiad Gwyrthiol o'r Pechadur i'r Sant.

Beth bynag fydd cyflwr yr enaid ar derfyn y daith yma, dyna fydd ei gyflwr ar ddechreu'r daith y tu hwnt i'r llen. Nid yw hyn, meddai rhywun, amgen na damcaniaeth. Eithaf gwir, ond y mae genyf yr un hawl i ffurfio fy namcaniaeth fy hun ar y mater ag sydd gan bob dyn—gan y miliynau aneirif ydynt, yn mhob oes, wedi ffurfio damcaniaethau mewn perthynas iddo. Ni fedraf fi synied am y mater hwn ond yn unig yn y goleu hwn—ar hyn o bryd o leiaf. A pherthyn i'r ddamcaniaeth hon un rhagoriaeth arbenig—gwna fywyd presenol dyn yn anhraethol bwysig: oherwydd ar yr hyn a wneir neu yr hyn a esgeulusir wneud ganddo y mae parhad ei fywyd yn ymddibynu.

Myfyriwr.

ADGOF UWCH ANGHOF.

ENWOGION 1809.

Credaf, Mr. Gol,, y byddai gair o fis i fis am enwogion "—09" yn adeiladol i'r bobl ieuainc yn mhlith eich darllenwyr. Yr wyf wedi synu, a gwelaf fod y papyrau wedi synu at nifer yr enwogion hyn. Gobeithiaf y bydd yr ychydig a ganlyn yn symbyliad i rai geisio rhagor o wybodaeth am danynt. Yr wyf wedi amcanu bod yn *short and sweet.*—B.C.D.

1761—SYR JOHN MOORE, 1809.

Lladdwyd Syr John yn mrwydr Corunna, Ionawr 16, 1809, ar derfyn ei enciliad medrus a chofiadwy; a chladdwyd ei gorff ar ffrwst yn ei ddillad milwraidd. Mawr oedd galar y fyddin a'r deyrnas ar ol eu gwron; a phasiwyd penderfyniad yn Nhy'r Cyffredin i gòdi cofgolofn iddo yn Eglwys St. Paul; a chymaint oedd parch ei elynion tuag ato fel y cododd y Maeslywydd Ffrengig Soult golofn hardd ar

ei fedd. Cyfansoddwyd cân ar ei gladdedigaeth gan Charles Wolfe, yr hon a farnai Arglwydd Byron yr odidocaf yn yr iaith Saesneg. Ceir cyfieithad o'r gân yn "Sisial o Awen Saeson" y Parch. D. L. Pughe. Dechreua'r gân Saesneg—"Not a drum was heard, not a funeral note," &c.

FELIX BARTHOLDY MENDELSSOHN.

Ganwyd Chwefror 3, 1809 yn Berlin.
Bu farw Tachwedd 8, 1847.

Ei dadcu, Moses Mendelssohn (a adwaenid fel "Socrates yr Iuddewon") a gyrhaeddodd enwogrwydd fel athronydd ac awdwr amryw lyfrau—un ar "Anfarwoldeb yr Enaid." Arianydd oedd ei dad, mwy enwog am ei gyfoeth nag am ei dalentau. Dywedai yr arferid ei alw pan yn fachgen yn *fab* hwn a hwn, ac yn awr galwant fi yn *dad* yr enwog Mendelssohn. Enwogodd Felix ei hun fel cerddor. Dangosodd arwyddion o'i alluoedd yn y cyfeiriad hwn cyn ei fod yn wyth oed. Chwareuodd mewn cyngherdd yn naw oed nes synu pawb. Cyhoeddwyd ei gyfansoddiadau cyntaf yn 1824. Yn fuan wedi hyn daeth ei enw yn fyd-adnabyddus.

CHARLES ROBERT DARWIN.

Ganwyd Chwefror 12, 1809.
Bu farw Ebrill 19, 1882.

Credwn y ceir enw Darwin mewn cysylltiad a mwy o lyfrau, yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, na'r un enw arall mewn hanes. Cyfansoddodd lawer ei hunan, ond y mae'r llyfrau yn esponio ei waith, rhai yn amddiffyn a rhai yn wrthwynebol bron yn ddirif. Iddo ef ac i Wallace y mae'r byd dan ddyled am waith mawr ar bwnc Ymddatblygiad. Y mae'r eglwys wedi bod yn elyniaethus i'w enw o hyd, er yn bur ddistaw yn bresenol. Teflid pob gwawd arno unwaith; ond dyna fel yr ydys wedi gwneud lawer gwaith o'r blaen a rhai o brif ddynion y byd. Gweler hanes dyddorol am Darwin a'i waith yn Yr Ymofynydd 1882, t. 280; 1907, t. 53.

ABRAHAM LINCOLN.

Ganwyd Chwefror 12, 1809.
Bu farw Ebrill 14, 1865.

Dyma un o'r enwau mwyaf teilwng o sylw manwl ac efelychiad ffyddlawn ein darllenwyr ieuainc. Cadwodd ddelfrydau uchel o'i flaen drwy ei oes. Ganwyd Abraham mewn bwthyn coed o'r mwyaf dinod, ac i deulu tlawd a llwm i'r eithaf. Perthynai ei rieni i'r dosparth a adwaenid fel y *Mean Whites*, y rhai, er eu bod yn byw mewn talaeth lle'r oedd y gaethfasnach, eto ni chadwent gaethion. Yr oedd ei dad yn weithiwr caled, a gorfu iddo yntau yn ifanc iawn ddysgu gweithio hefyd. Collodd ei fam yn gynar, ond cafodd bob tynerwch

a chwareu teg gan ei dad. Tua blwyddyn o ysgol gafodd, ond yr oedd ei awydd am wybodaeth yn angerddol, ac felly manteisiai ar bob cyfleusdra i ddarllen. Dywed y ddiareb fod gwybodaeth yn nerth, a dengys yntau fedr hynod i droi ei wybodaeth i wasanaeth, a chawn ef yn esgyn yr ysgol gyda chyflymdra ryfeddol—o ffon i ffon nes myned yn swyddog yn y fyddin, yn *postmaster*, yn *surveyor*, yn gyfreithiwr, &c. Yn 1847 mae'n aelod o'r *Congress;* yn 1860 yn ymgeisydd am y Llywyddiaeth, ac yn cael ei ethol drwy 1,857,910 o bleidleisiau. Ionawr 1, 1863, cyhoedda'r holl gaethion yn rhydd. Ebrill 15, 1865 (sef nos Wener y Groglith) yn y Ford's Theatre, fe glyw'r geiriau—sic samper tyrranis, Felly'n wastad i ormeswyr—o enau Wilkes Booth, yr actor, yr hwn a'i saethodd yn farw. Tybiai ei elynion fod ei haul wedi machlud am byth, ond saif Lincoln heddyw yn uwch nag erioed yn marn y byd. Yr oedd cydymdeimlad mawrion Prydain bron yn hollol gyda'r De yn amser y rhyfel, ond credwn fod y teimlad yn bresenol o du y blaid a lwyddodd.

Gweler erthygl ar Abraham Lincoln yn YMOFYNYDD Mehefin, 1865, t. 131, a cheisied y darllenydd ieuanc gael gafael yn y gyfrol swynol, "The Pioneer Boy, and how he became President."

EDGAR ALLAN POE.

Ganwyd Chwefror 19, 1809.
Bu farw Hydref 7, 1849.

Brodor o'r Americ oedd, ac awdwr rhai o'r darnau mwyaf swynol yn yr iaith Seisneg, megys The Raven, Annabel Lee, The Bells, &c. Cyfansoddodd ystoriau hefyd hynod iawn. Nid oedd ei fuchedd yn deilwng o'i dalentau dysglaer; ond er hyn oll dywedir na adawodd ei ysgrifell un linell ar ei ol nad oedd yn bur.

Yr wyf am ddywedyd rhywbeth wrthych, foneddigion. Hir iawn yw tragwyddoldeb. Nid yw cyfleusdra ond rhan fechan o hono, ond y mae yn werth yr oll. Pe rhoddai Duw i mi'r dewisiad o'r holl blaned neu fy fferem fach, mi ddewiswn fy fferem yn sicr.—*Ralph Waldo Emerson.*

Nid â du fewn i'r nefol fur,
Ond a fô'n lân, i'r eitha'n bur;
Y da, dros fyth, bydd mawr eu braint,—
Lle da'n dragywydd gyda'r saint.

Iolo Morganwg (1746—1826.)

COLL GWYNFA MILTWN.

GAN J. ISLAN JONES, B.A.

(*Parhad o Rifyn Ionawr*).

Yn y pedwerydd llyfr y mae Satan yn dod i Ardd Eden, a chan gymeryd arno'i hun ffurf corfran eistedda ar gangen o Bren y Bywyd yn nghanol yr ardd: wrth edrych o ddeutu llenwir ei fynwes gan eiddigedd wrth weled y prydferthwch a'r harddwch yn mha rai y mae Adda ac Efa yn byw.

Tlws neillduol yw desgrifiad Miltwn o'r Ardd: ynddi tyfai coedydd bythwyrddion, prydferth yr olwg arnynt, hyfryd eu harogl, a melus eu blas. Drwyddi rhedai ffrydiau grisialaidd dros röydd o berlau a thywod o aur, ar ei llwybrau troellog dan gysgod dwfn y coedydd; tra yr oedd blodau o'r mathau rhagoraf wedi eu taenu'n ddestlus ar fryn a dyffryn a gwastadedd. Yno rhwng y coedydd a'r blodau, yn murmur peraidd y ffrydiau y treuliai Adda ac Efa fywyd mor ddedwydd a breuddwyd plentyn diofid ar arffed natur yn mis Mehefin. O'u deutu y chwareuai y llew a'r oenig, a thrigai holl anifeiliaid y maes mewn heddwch. Melus iawn yw eu sibrydion serch, a rhodiant yn arglwydd ac arglwyddes yr Ardd gan adlewyrchu delw, a phriodoleddau dwyfol eu Creawdwr, gwirionedd, doethineb, a sancteiddrwydd pur; Adda yn rhagori mewn nerth meddyliol a chorfforol, ac Efa mewn tynerwch a swynol ddengarwch; ac er mai yn myd y dychymyg yr ydym, teimlwn ein calon yn gwaedu wrth feddwl fod Satan yn barod yn brad-gynllunio i ddinystrio heddwch y fangre hyfryd, a diniweidrwydd y ddau sydd mor bur eu meddyliau a dwyfol eu serchiadau.

Mewn gwirionedd buasai yn iechyd i galonau bechgyn a merched Cymru i ddarllen y rhan yma o gerdd Miltwn. Y mae yn rhoddi i ni ddesgrifiad perffaith o gariad didwyll a dihalog mab a merch, ac y mae ymddiddanion serch Adda ac Efa yn un o'r pethau coethaf yn yr iaith. O na fyddai meddyliau 'cariadon' gwlad y bryniau yn haner mor bur, a'u hiaith yn haner mor chwaethus a hyn: gymaint yn fwy dwyfol fyddai eu serch at eu gilydd! Anhawdd genyf gredu y gall unrhyw fab neu ferch ddarllen cân Miltwn heb i'w serchiadau gael eu puro a'u dwyfoli, ac y mae'r nefoedd yn dyst fod mawr angen am hyn. Y mae cariad *gwir* yn rhywbeth dwyfol ac nis gall dim amhur darddu yn y galon a'r enaid sydd yn byw yn ei awyrgylch sanctaidd.

Yn y pumed llyfr y mae Efa yn adrodd i Adda freuddwyd anhyfryd a gafodd yn y nos, sef rhyw ysbryd yn ei themtio i brofi ffrwyth y pren gwaharddedig; ond y mae Adda yn ei chysuro gan ddweyd y gall amcanion drwg groesi meddwl Duw a dyn ac ymadael heb adael craith na drwg effaith ar ei hol. Y mae'r cwmwl yn cilio a melus odiaeth yw cân foreuol y ddau i Dduw, yr hwn hefyd o'i drugaredd a enfyn yr angel Raphael i'r ddaear i'w rhybuddio eto rhag hudoliaeth Satan.

Ar gais Adda y mae Raphael yn adrodd holl hanes Satan yr hyn a gymer i fyny y rhan olaf o'r pumed a'r oll o'r chwechfed llyfr, ac yn y seithfed edrydd hanes creadigaeth y byd. Yn yr wythfed boddlona Raphael yn mhellach awyddfryd Adda am wybodaeth, a chan ei ddwys gynghori i wylio rhag hud a thwyll Satan, gedy Ardd Eden a dychwel i'r nefoedd.

Yn y nawfed llyfr cyrhaedda'r ddrama ei huchel-bwynt; ac yma

ceir athrylith Miltwn yn ei gwedd ddisgleiriaf. Ryw foreu pan oedd y wawr dlos â chusan sanctaidd yn dihuno holl fywyd yr Ardd, a'r blodau gwlith-berlog yn anadlu perarogl i'r nefoedd, cododd Adda ac Efa hefyd i gyfarch eu Creawdwr ac i feddwl am orchwylion y dydd. Y mae Efe yn dweyd wrth ei chydmar fod coed a blodau'r Ardd yn tyfu'n wyllt ar waethaf eu triniaeth, fod gwenau ac ymddiddanion serch yn cymeryd gormod o'u hamser, ac mai gwell fyddai iddynt wahanu am y dydd er mwyn gwneud mwy o waith. Y mae Adda yn canmol ei hamcan, ond yn methu gwel'd fod dyledswydd yn gofyn iddynt alltudio serch dwy fynwes am y dydd. Mewn gwirionedd mae yn ofni y delai drwg i ran Efa allan o'i olwg ef, a gwir iawn yw ei ymadrodd wrthi: "Lle mae perygl ac anfri yn cudd-lechu, mwy diogel a mwy gweddus yw fod y wraig yn ymyl ei gwr, fel y gallo ei hamddiffyn, neu o leiaf ddioddef gyda hi."

Clwyfodd hyn deimladau Efa yn enbyd: dyna wel'd chwith wnaeth hi!—i feddwl fod Adda yn amheu ei chryfder, a'i ffyddlondeb, a'i chariad hi; os oedd Satan yn llechu yn yr Ardd onid oedd rhybuddion Raphael yn ddigon i'w chadw hi ar ei gwyliadwriaeth? Duw a'th helpo di Efa, —mae hudoliaeth Satan yn fwy peryglus nag wyt yn meddwl! Hawdd dychmygu y cwmwl o wg a daenodd dros ei gwyneb prydferth wrth feddwl am y syniad ei bod *hi* mewn perygl. Y mae Adda fel pob gwr priod sydd yn deall ei dywydd yn gostwng ei ben ac yn gostegu ei lais o dan y dymhestl, ac yn rhyw haner dorcalonus y mae yn gwneud ymddiheurad:—nad oedd ef yn amheu ei ffyddlondeb hi, ond ei fod yn awyddus i'w chadw rhag un gofid a themtasiwn. "Y mae dau yn well nag un," meddai Adda, "ac fe fuaswn i yn gryfach yn wyneb temtasiwn gyda thi nag hebot ti." Ond ofer yw ei ymresymiadau. Son am ewyllys benyw! dyma engraifft o honi yn ei pherffeithrwydd: y mae Efa yn ddidroi yn ol, y mae hi yn myn'd i enill clod drwy orchfygu Satan; felly dywed Adda wrthi "Dos allan yn dy burdeb cynhenid, hydera yn dy rinwedd, a chofia i Dduw wneud ei ran tuag atat ti, gwna dithau dy ran tuag atat dy hun."

Ymaith yr aeth Efa gallem feddwl mewn llawn arfogaeth yn erbyn twyll, ond tra yr oedd hi yn ddiwyd yn mysg y blodau clywai Satan ar ffurf sarff yn sibrwd o blith y dail "dyna greadur perffaith wyt ti. Y mae dy brydferthwch dwyfol yn ddigon i daro holl greaduriaid y greadigaeth yn fud gan edmygedd." Anghofiodd Efa ei hun ar unwaith dan y fath weniaith; tynerodd ei chalon a meddai wrthi ei hun, "beth yw'r creadur *neis* yna sydd yn sibrwd yn y dail?" Ar ol hyn gorchwyl hawdd oedd eiddo Satan a gwireddwyd unwaith am byth y ffaith os yr erys merch ddiwair a diniwaid i wrando yn ddifrifol ar hudoliaeth a gweniaith Satan y mae ar ben am dani. Y mae rhai o ferched Efa o hyd yn hoff o chwareu a'r diafol, os y deuant o hyd i un sydd wedi twyllo chwech neu saith o'u chwiorydd tybiant mai gwrhydri yw ei gael i'r rhwyd, y peth tebycaf yw mai cael eu hunain yn y llaid wnant hwy; ond pe llwyddent y fath bryfyn fyddai ganddynt wedi'r cyfan!!

Gwyddai Miltwn yn dda wendidau y rhyw deg, gwyddai y llwyddai gweniaith yn well na dim i dreiddio amddiffynfeydd y galon rinweddol a diniwaid. Ar ol enill cydymdeimlad Efa drwy weniaith y mae Satan yn cymeryd mantais ar wendid arall—cywreinrwydd, y mae'n dweyd wrth Efa am rinweddau dihafal ffrwyth y pren gwaharddedig, ei fod ef wedi ei brofi, ac nad oedd y fath beth a marwolaeth yn canlyn. Llenwir Efa gan gywreinrwydd, a hefyd gan uchelgais i ddod yn gyfuwch a Duw mewn gwybodaeth, ond er iddi ymresymu a Satan yn ngylch y gwaharddiad nid oes gorphwysdra iddi nes profi o ffrwyth y pren.

Effaith cyntaf y ffrwyth ar Efa oedd rhyw ddyloniant anarferol, ond

yn fuan meddyliai ynddi ei hun beth os oedd yr hyn ddywedodd yr Hollalluog yn wir, ac y byddai iddi farw, tra y byddai Adda fyw a phriodi rhyw Efa arall? Yr oedd y meddwl yn anioddefol; mynai i Adda i fyw a marw gyda hi. Yn y cyfamser disgwyliai Adda yn bryderus am ei dychweliad gan ryfeddu beth oedd wedi digwydd. Yr oedd ffwdan dillad newydd heb ddechreu eto, ond gwyddai fod rhyw ffwdan neu gilydd wedi cyfodi.

Pan y gwnaeth hi ei hymddangosiad mawr y canmolai ffrwyth y pren gwaharddedig a thaer erfyniai ar Adda hefyd i'w brofi. Mawr oedd gofid ac arswydd Adda pan y deallodd beth oedd wedi digwydd; gwyddai mai marwolaeth fyddai rhan angyles ei galon, a chredai hefyd na fyddai bywyd yn werth ei fyw hebddi hi; yr oedd ei enaid yn glymedig wrthi, felly penderfynodd farw gyda hi; ac wrth weled yma y prawf o serch cryfach nag angau torodd Efa allan i wylo dagrau o orfoledd yn ei hadfyd.

Bwytaodd Adda hefyd o ffrwyth y pren, a'r canlyniad fu i'w cariad dihalog gael ei wenwyno gan nwydau cnawdol a dihunwyd o'u mewn soriant, drwgdybiaeth, casineb, a phob anghydgord sydd yn merwino bywyd dyn hyd heddyw. Dechreuasant gweryla a beio eu gilydd, a meddai Adda "dyma dynged y dyn sydd yn hyderu gormod yn ei wraig, ac yn gadael i'w hewyllys hi lywodraethu."

Yn y degfed llyfr y mae Duw yn danfon y Mab i gyhoeddi dedfryd y nefoedd uwchben Adda ac Efa a'r Sarph. Y mae tristwch llethol yn gorddiwes Adda wrth feddwl y byddai canlyniad ei bechod ef yn disgyn ar ei holl hiliogaeth, ac y mae Efa yn ei gofid yn awgrymu am osod terfyn ar eu heinioes rhag cenhedlu plant mewn pechod, ond y mae gwawr gobaith yn tori, eu gafael ar fywyd yn cryfhau a'u serch at eu gilydd unwaith eto yn profi yn gryfach nag angau.

Y mae'n eglur erbyn hyn fod Adda yn ystyried Efa yn ddim ond mam y ffwdan, yr hon oedd wedi troi'r byd yn bendramwnwgl, y mae yn ei galw hi yn "ddiffyg prydferth natur" ac yn cwyno na fyddai'r Creawdwr wedi cynllunio'r bydysawd hebddi hi.

Ofnaf fod y chwedl yma am gwymp dyn drwy Efa (canys nid yw ond chwedl ddisail) wedi bod yn felldith i'r rhyw deg drwy yr oesau, ac wedi eu cadw yn *gaethion* yn hytrach na chydraddolion i'w gwyr. Clywir ambell i goegyn o hyd yn bychanu gallu a gwasanaeth benyw hyd nes i un o honynt i'w wirioni yn anobeithiol, ac yna newidia ei gân a thaera ei bod hi "yn angel" a rhyw ffolineb felly. O ddyn penwag! ceisia fod yn rhesymol, nid yw hi na bwystfil nac angel, ond bod dynol yn meddu synwyr ac ewyllys a chalon gwerth eu caru a'u parchu, ac os wyt ti am heddwch dyro iddi ei hiawnderau. Yn awr danfonir yr angel Michael o'r nefoedd i ddweyd wrth Adda ac Efa y bydd yn rhaid iddynt fyn'd allan o Ardd Eden i wrteithio, drwy chwys eu gwynebau, daear llai ffrwythlon. Y mae hyn yn peri chwithdod a siomiant mawr; y mae'r angel fodd bynag yn rhag-ddweyd wrth Adda hanes cenedlaethau'r byd, ac yn dangos nad yw tynged dyn yn anobeithiol wedi'r cyfan; ond fod cymod a Duw yn bosibl ac y byddai i'r cymod hwnw gael ei gwblhau yn Nghrist. Teyrnasa heddwch unwaith eto yn meddwl Adda, gwybydd mai y peth goreu iddo yw ufuddhau a charu Duw, rhodio yn ei wyddfod, byw'n unol a'i Ragluniaeth, ac ymddibynu arno Ef yn unig..

Fel yna y mae'r ddau yn ymadael a Gardd Eden, gan golli rhai dagrau ond nid heb obaith: o'u blaen yr oedd y byd mawr llydan i ddewis eu trigfan, a Rhagluniaeth yn eu harwain: llaw yn llaw, yn gyfeillion mewn adfyd ac yr un mewn hawddfyd y dechreuant eu byd o'r newydd.

Dyna ni yn fyr ac yn anhrefnus wedi nodi rhai o agweddau y gerdd, ond i sylweddoli mawredd ac arucheledd awen Miltwn, rhaid i'r darllenydd astudio "Coll Gwynfa" ei hunan. Y mae'r safle dduwinyddol

yn mhell o safbwynt Undodiaeth y dyddiau presenol, *barddoniaeth* ac nid *duwinyddiaeth* "Coll Gwynfa" sydd yn mynd i bara byth. Drwy'r oll o'r gerdd y mae'r chwaeth o'r fath buraf, nid oes yma ddim i glwyfo teimladau y galon fwyaf pur. Y mae hyn yn fwy nas gellir ddweyd am chwareugerddi dihafal Shakespeare. Ni waeth pa un ai yn uffern, ar y ddaear, neu yn y nefoedd y mae Awen Miltwn yn hedfan, y mae bob amser yn ddillyn a pheraidd.

Y mae llawer o wersi moesol i'w dysgu o'r gerdd, yr ydym wedi cyffwrdd a rhai o honynt, ond pallai gofod i mi fanylu ar y gweddill. Nid ydym yn cydfyn'd a syniadau Miltwn ar lawer o bethau. Credai ef yn ddiameu fod benyw yn is-raddol o ran gallu i ddyn, yr ydym yn methu gweld fod ffeithiau yn cadarnhau hyn. Y mae ambell i ddyn yn uwch-raddol i'w wraig a llawer gwraig yn uwch-raddol i'w gwr. Nid ydym o'r farn fod gan rywogaeth ddim i wneud a synwyr, nac o angenrheidrwydd a moesoldeb.

Y mae un dyddordeb neillduol yn perthyn i "Goll Gwynfa," sef fod Miltwn yn hollol ddall ar yr adeg y cyfansoddodd y gerdd. Byddai i lawer un ddigaloni o dan y fath anffawd, ond nid felly Miltwn. Yn ei achos ef ni wnaeth dallineb i'r byd allanol ond cryfhau y goleuni mewnol a'i alluogi i gyflawni gorchestwaith ei fywyd. Arferai ei ferched ysgrifenu drosto a mynych ar ganol nos y galwai arnynt i ysgrifenu y drychfeddyliau a ymfflachient ar ei feddwl. Y foeswers o hyn yw : na fydded i ni adael unrhyw anffawd i rwystro gwaith ein bywyd.

Un peth arall, ni dderbyniodd Miltwn fawr o elw bydol oddi wrth y gerdd yma—rhyw bymtheg punt o arian am waith blynyddau. Ffaith anhyfryd yw yr un fod y byd erioed wedi esgeuluso plant athrylith, ac wedi arllwys aur yn bentwr i arffed y rhai sydd wedi ysgrifenu maswedd. Ond y mae gan athrylith amcan uwch na gwneud arian, ac enillodd Miltwn rywbeth gwell—anfarwoldeb yn myd llenyddiaeth. Cariad at yr Awen, ac awyddfryd i fod yn ffyddlon i'w alwedigaeth uchel fu yn ysprydoliaeth iddo. Ddarllenydd, y mae genyt ti hefyd dalent, dos a gwna dithau yr un modd.

TU HWNT I'R LLEN.

II.

'GAIS AT EGLURO PWNC DYRYS,'

Tybed a ydyw pawb o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD am Chwefror, 1908, wedi darllen yr ysgrif wir ddyddorol o eiddo'r Parch. R. J. Jones, M.A., ar y 'Tu Hwnt i'r Synwyrau'? Os oes yna rai nas darllenasant hi, boed iddynt wneud hyny ar unwaith ; am y rhai sydd wedi myfyrio uwch ei phen, boed iddynt ei darllen eto. Y mae yn chwedl yr awdwr, ac yn gais nerthol hefyd. Gaf fi ofyn ar bawb o ddarllenwyr yr ysgrifau amherffaith hyn i droi at yr erthygl hono er caffael o honynt lusern i helpu'm canwyll egwan fy hun ?

Awgrymais yn yr erthygl o'r blaen mai *meddwl* yw'r peth penaf a berthyn i ddyn ; ac wrth y gair meddwl golygaf bobpeth a ddel i

fewn i'n hymwybyddiaeth, y teimlad, y serch, a'r gydwybod, &c.

Dyma'r sail gadarn gafodd Descartes i'w athroniaeth. '*Yr wyf yn meddwl, felly 'rwyf yn bodoli.*" Nid y byd oddiallan, fel y gwelwn ef, nid y corph sydd yn lapio'r enaid, nid dim o'r hyn a alwn yn faterol, yw'r sylwedd sylfaenol yn ein bodolaeth ond yr ymwybyddiaeth,—*yr wyf yn meddwl.* Nid yw'r papur o'm blaen ond darlun yn fy llygad, a hwnw yn gadael ei ol ar yr enaid—a defnyddio gair arall am yr ymwybyddiaeth. Effaith ar y meddwl yn unig yw'r cwbl welaf, glywaf, ac a deimlaf. Nid yw'r greadigaeth i gyd ond cyfres o dònau ar fôr fy enaid. Am yr achos o'r tònau, nis medraf fod yn ymwybodol o hono, fel na fedr y llygad weled y gwynt sy'n cynyrchu tònau'r môr. Y mae'r hen greadigaeth yma er's blwyddi lawer yn cynhyrfu dyfroedd fy enaid, ac fe bery i wneud hyny oni 'hunaf fy olaf hun.' Ond pwy feiddia honni nad yw'r môr yn bodoli wedi i'r ystorm beidio cynhyrfu ei dònau? A phwy a feiddia haeru fod terfyn i'm hymwybyddiaeth i wedi peidio o gorwyntoedd amser ar fy enaid?

Lled dybiaf fod mwy o anghredu yn anfarwoldeb yr enaid yn bodoli nas mynwn ei gyfaddef mewn cylchoedd crefyddol. Yr wyf ers blynyddau wedi troi ymysg llawer o bobl ddeallgar, rhai yn perthyn i amryw gredoau a chenedloedd, a'r un cwestiwn a glywaf ar bob llaw, "Os bydd dyn farw, a fydd efe byw drachefn?"

Y mae cwmwl tystion gwyddoniaeth yr oes wedi taflu tywyllwch dudew ar y mater. Y mae damcaniaeth dadblygiad fel ei deallir yn gadael allan yn gyfangwbl y cwestiwn o ysbryd ac enaid. 'Does a fyno dadblygiad ag ef. A'r syniad cyffredin yn mysg y rhai sydd yn meddu gwybodaeth beryglus fechan, fod dadblygiad yn cynwys yr oll. Y mae dyn wedi dadblygu o bridd di-fywyd y ddaear, ac i lwch dienaid y llawr y dychwela drachefn, a thyna ei gylchdro ar ben. Yn lle edrych ar bridd fel posibilrwydd o enaid, edrych ar enaid fel posibilrwydd o bridd a wneir.

Y mae golwg digon di-fywyd ar yr hen fron acw uwch afon Teifi heddyw; y mae cerrig geirwon arni yn gorwedd yn drwm; y mae rhanau o honi yn goch fel cnawd wedi braenu yn angau; a bonau crinion planigion y llynedd yn wasgaredig fel ysgerbydau fisoedd gwedi'r frwydr: y mae

MUDANDOD MARWOLAETH

yn teyrnasu ar y fan. Marwolaeth ddwedais? Gyda swn y gair clywaf gân foreuol hedydd Mawrth yn yr awyr, a thôn gyntaf aderyn du y gwanwyn yn y llwyn; a gwel fy llygaid flodau melynion cynar planhigyn carn yr ebol ar y ddaear goch, a buan daw'r *celandine* aur a blodau gwynion y gwynt i hulio'r maes a bywyd gwanwyn mwy gorfoleddus nag erioed. Na, nid marw mo'r fron, eithr huno y mae, ac y mae eisoes yn rhwbio ei llygad i ddadebru. Nid angau yw ffaith fawr y cread, ond bywyd; nid yw tywyllwch ond posibilrwydd goleuni; y mae'r wawr eisoes yn ymsymud yn nghrôth y canol-nos. Malurir y graig gan y rhew a'r gwlaw, a'r ystorm a'r haul; el yn llwch a llaid; try yn ddaear; deil y gwanwyn ei hudlath uwch ei phen, ac wele wyrth genedigaeth blodeuyn! Aroswn ychydig ac wele wyrth anferth fwy—

GENEDIGAETH DYN BYW,

yn meddu yr hyn a elwir yn enaid. Felly medd rhywun os oes enaid mewn dyn, y mae enaid yn y blodeuyn, ac yn y dywarchen o'r hon y tardd, ac yn y graig o'r hon y deillia'r dywarchen. A bloeddiaf finau Amen! Mae enaid yn y graig, oes ac yn y mor, ac yn ddaear fawr, ac yn y greadigaeth oll, a'r

ENAID HWNW YW DUW!

A'm henaid i nid yw ond darn o Dduw. Efe a anadlodd ynwyf anadl

einioes. Duw ydyw'r môr, a minau sydd dòn fechan ar ei fynwes, yn cael fy nhaflu a'm chwalu gan y gwynt.

Ond disgynwn o dir swynol ond peryglus damcaniaeth i fysg ffeithiau moelion, mor bell ag y medrwn gael ffeithiau—gan gofio o hyd mai'r ffaith benaf yn ein hanes yw ein bod yn berchen *meddwl*, ac mai yn a thrwy y meddwl hwn y deuwn i gyffyrddiad a phob ymddangosiad allanol a mewnol. Yn gyntaf dyfynaf, mewn cyfieithiad o lyfryn ar weithiau Emanuel Swedenborg gan J. Howard Spalding : "Yr ydym yn reddfol yn cymeryd yn ganiatol fod y byd allanol yn bodoli o'r tu allan i'r meddwl. Gwyr pob efrydydd ar athroniaeth waned y sail ar ba un y gosodwn y dybiaeth hon. Fodd bynag, 'does dim drwg mewn credu fod y pethau y tu allan i ni yr un fath ag y dwed ein synwyrau wrthym eu bod. Felly y golygir i ni gredu at bob pwrpas o fyw yn y byd hwn. Pan y dechreuwn ymresymu ar sail tystiolaeth ein synwyrau, a hyny yn groes i'r Dwyfol, y try yr argraffiadau hyn yn beryglus, ac weithiau'n angeuol, oblegid tueddant i anghrediniaeth ddamcaniaethol ac anymarferol. Gofelwch ynte, rhag i'r syniad o fodolaeth y byd allanol yn annibynol ar feddwl i oruwchlywodraethu eich syniadau am Dduw a phethau Dwyfol." Neu yn ngeiriau Swedenborg ei hun : "Yr wyf yn crefu arnoch am beidio cymysgu eich meddyliau ag amser a lle ; canys i'r graddau y bydd amser a lle yn eich meddyliau tra'n darllen yr hyn a ganlyn y byddwch yn analluog i'w amgyffred."

Gosodaf o flaen y darllenydd rai ffeithiau, h.y., y maent yn gystal ffeithiau a dim y gwn am danynt yn myd gwyddoniaeth.

1.

Nid yw'r ffaith hon o un pwys ynddi ei hun. Ond y mae'n brofiad personol, ac y mae'n bosibl edrych arni yn ngoleuni hanesion eraill a grybwyllir. Un nos Sadwrn, yn A———, y dref yr wyf wedi bod yn byw ynddi rai blynyddau, cefais freuddwyd anesmwyth, yn yr hwn y mynegwyd imi am farwolaeth merch ieuanc a adnabyddwn yn dda flynyddau'n ol. Yn wir yr oeddwn wedi treulio oriau hirion a difyr yn ei chwmni. Nis clywswn ddim am dani ers peth amser, ond gwyddwn ei bod yn wael ei hiechyd. Tranoeth yn y capel, ar ddiwedd yr oedfa dywedodd y gweinidog wrthyf am farwolaeth Miss L——, a chofiais ar unwaith am freuddwyd y noson gynt. Gellir yn hawdd gyfrif am y breuddwyd hwn drwy ei briodoli i ddigwyddiad. Ac nid yw wedi cael yr un effaith ar fy syniadau am bynciau cyfriniaethol. Ond beth am y breuddwydion a ganlyn ?

2.

Yn ngauaf 1882—1883 yr oedd Dr. Herman V. Hilprecht, Athraw Assyriaeg yn Mhrifysgol Pennsylvania, yn cydweithio a'r Athraw Friedrich Delitzch, ac yn parotoi traethawd ar, a chyfieithiad o faen o eiddo Nebuchodonosor I., gyda nodiadau. Derbyniai ar y pryd esboniad y Proff. Delitzch ar enw Nebuchodonosor—"Nabû-Kudûrru-usur,' 'Nebo a fendithia fy ngwaith fel saer meini.'" Wedi cwsg anesmwyth, dihunodd gyda'i feddwl yn llawn o'r syniad y dylai yr enw gael ei gyfieithu, "Nebo a amddiffyno'm terfyn." Yr oedd ganddo ryw ymwybyddiaeth wan ei fod wedi bod yn gweithio wrth ei fwrdd yn ei freuddwyd, ond nis gallai gofio'n hollol fanylion yr oruchwyliaeth drwy yr hon y daeth i'r penderfyniad hwn. Wrth fyfyrio ar y mater ar ol dihuno, modd bynag, gwelodd ar unwaith y gellid olrhain y gair Kudûrru, 'terfyn' i'r ferf Kadâru, 'amgau.' Yn fuan ar ol hyn cyhoeddwyd y cyfieithiad yn ei draethawd, ac y mae wedi ei fabwysiadu fyth wedi hyn.

Ond mae y breuddwyd a ganlyn yn fwy rhyfeddol. Ysgrifenodd y Proff. Hilprecht ef Awst 8fed, 1893, yn Ellmynaeg :—

"Un nos Sadwrn, tua chanol Mawrth, 1893, yr oeddwn wedi bod yn blino fy hun, fel y gwaethwn am rai wythnosau cyn hyny, yn ofer geisio darllen ysgrif ar ddau ddernyn bychan o faen muchudd a dybid fu'n perthyn i fodrwyau bysedd rhyw Fabilonwr. Yr oedd y llafur yn llawer mwy o herwydd nad oedd ar y darnau ond olion llythyrenau a llinellau yn unig, fod dwsinau o gyffelyb ddarnau wedi eu cael yn nheml Bel yn Nippur nas gallesid gwneud dim o honynt, ac yn mhellach, nad oeddwn erioed wedi cael y gwrthrychau gwreiddiol o'm blaen, dim ond darlun brysiog o honynt a wnaed gan un o aelodau ymgyrch a anfonasid yno gan Brifysgol Pennsylvania. Nis gallaswn ddweyd rhagor na fod y darnau yn perthyn i'r cyfnod 1700—1140 C.C. yn hanes Babylon. Yn mhellach, gan mai K U yr ymddangosai fod darlleniad y drydedd llinell yn y darn cyntaf, priodolais y darn hwn i'r Brenin Kurigalzu, tra y rhoddais y darn arall mewn rhan o'm llyfr gyda darnau ereill nas gallswn eu dosranu.

"Yr oedd y prawfleni eisoes o'm blaen, ond yr oeddwn yn mhell o gael fy moddloni. Pasiodd yr holl gwestiwn drwy fy meddwl unwaith eto y nos hono o Fawrth cyn i mi osod arwyddnod fy nghymeradwyaeth ar y cyweiriad olaf yn fy llyfr. Hyd yn oed y pryd hwnw nid oeddwn wedi dyfod i un penderfyniad pendant. Tu chanol nos aethum i'r gwely, wedi llwyr flino, ac yr oeddwn yn fuan mewn trymgwsg, yna breuddwydiais y breuddwyd hynod a ganlyn. Daeth ataf offeiriad tal, teneu, yn perthyn i Nippur gyn-Cristionogol, tua deugain mlwydd oed ac wedi ei wisgo mewn *abba* syml, ac fe'm harweiniodd i ystafell trysorau'r deml, ar ei hochr de-ddwyreiniol, aeth a mi i ystafell fechan isel, heb ffenestri, yn yr hon yr oedd cist fawr o goed, tra'r oedd drylliau o faen muchudd a *lapis lazuli* ar wasgar hyd y llawr. Yna fe'm cyfarchodd fel y canlyn :—'Y darnau yr ydych eisoes wedi eu cyhoeddi ar wahan ar y tudalenau 22 a 26, nid modrwyau bysedd mo honynt, ond perthynant i'w gilydd, ac y mae eu hanes fel y canlyn. Danfonodd y Brenin Kurigalzu (tua 1300 C.C.) unwaith i deml Bel, yn mysg gwahanol dlysau o faen muchudd a *lapis lazuli* drolig addunedol o faen muchudd, ag ysgrif arni. Yna cawsom ni'r offeiriaid orchymyn i wneud i ddelw y duw Ninib bar o glust-dlysau o faen muchudd. Er mwyn cyflawni'r gorchymyn nid oedd dim genym i'w wneud ond tori'r drolig yn dair rhan, ac felly ei gwneuthur yn dair modrwy, a phob un o honynt yn cynwys darn o'r ysgrif wreiddiol. Gwasanaethodd y ddwy fodrwy fel clust-dlysau i ddelw'r duw; darnau o'r rhai hyny yw y drylliau sydd wedi peri cymaint blinder i chwi. Os gwnewch osod y ddwy gyda'u gilydd cewch gadarnhad o'm geiriau. Ond am y drydedd modrwy nid ydych wedi ei chael eto yn nghwrs eich cloddfeydd, ac nis darganfyddwch mohoni byth.' Dihunais ar unwaith ac yn y fan dywedais wrth fy ngwraig y breuddwyd a gawswn. Y boreu canlynol—y Sul, archwiliais y darnau yn ngolau'r breuddwyd a gawswn, ac er fy mawr syndod, cefais fod y cyfan yn gywir yn ei holl fanylion, mor bell ag y gallaswn eu profi. Darllenai'r cerfiad ar y drolig : 'I'r duw Ninib, mab Bel, ei arglwydd, y rhoddwyd hwn gan Kurigalzu, archoffeiriad Bel.' Cafodd y dyrysbwnc ei oleuo o'r diwedd." Dylid ychwanegu i bwyllgor gael ei ddanfon i Gaercystenyn yn 1893, ac yn yr amgueddfa yno cafwyd darnau o faen muchudd yn gywir fel y darluniasid hwy yn y breuddwyd gan yr offeiriad Babylonaidd ! Ag eithrio'r eglurhad goruwchnaturiol yr unig esboniad ar y breuddwyd hwn yw i un Dr. Peters fynegu rhai o'r manylion hyn, ond nid yr oll o honynt, i'r Proffeswr dysgedig ryw amser cyn iddo gael y breuddwyd.

3

Bythefnos cyn marwolaeth Iarll L—— yn 1882, breuddwydiodd y

Dduges Hamilton iddi weled y pendefig yn ei gadair, mewn llewyg, gyda dyn a barf goch yn sefyll uwch ei ben. Yr oedd ef wrth ochr ymdroch-lestr, ac uwchben yr ymdrochfa gwelai lamp goch yn goleuo'n eglur.

Yn mhen yr amser nodedig bu farw yr Iarll o enyniad yr ysgyfaint yn union o dan yr amgylchiadau crybwylledig. Mynegodd y Dduges ei gweledigaeth bythefnos cyn yr amgylchiad. Dywedir ar dystiolaeth ddiymwad y byddai y bendefiges yn arfer cael breuddwydion a ddaethant yn wir flynyddau ar ol eu gweled. Nid oedd y Dduges yn adnabod y pendefig ond wrth olwg, ac nid oedd wedi clywed ei fod yn glaf. Nid oedd yn hollol yn nghwsg, oblegid agorodd ei llygaid er mwyn ceisio cael gwared ar y weledigaeth, ond wedi eu cau, daeth yr un peth eto'n ol.

Yr wyf wedi cymeryd y ddwy engraifft (2 a 3) o lyfr F. W. H. Myers—*Human Personality and its Survival after Death.*

Yn y *Review of Reviews* am Chwefror dywed Mr. W. T. Stead ei fod mewn *Séance* yn cael ei chynal o dan y fath amgylchiadau nas medrid ei dwyllo, a'i fod wedi clywed llais ei fab ymadawedig, darllen ysgrifen oddi wrtho, ac wedi gweled ei wyneb, a hyny mewn modd diamheuol.

Yn y rhifyn nesaf, cawn sylwi ar 'brofion' o natur wahanol, yr oll o honynt wedi eu gwireddu tu hwnt i unrhyw amheuaeth resymol.

S.

DEIFES.

Gair mewn amddiffyniad iddo.

GAN UN O'I FRODYR.

Yn y dyddiau hyn pan y mae cymaint o ymosod ar Deifes y mae rhyw awydd wedi codi arnaf i ysgrifenu gair mewn amddiffyniad iddo. Chwareu teg i bawb, ie, ddywedaf fi i'r Gwr Du ei hunan. Cyn y gallwn ni hawlio ein bod yn gyfiawn ein hunain, rhaid i ni geisio gwneuthur cyfiawnder ag eraill. Yn y llinellau sy'n canlyn nid wyf am wneuthur cam a Lazarus na Deifes. Perthyn yn ddiamheu ei ffaeleddau i bob un o honynt, ac o bosibl eu rhinweddau hefyd. Pe cymharem y ddau ddosparth—dosparth Deifes, a dosparth Lazarus—â'u gilydd, credwn na fyddid yn mhell o le pe rhenid hwy megys yn chwech o'r naill a haner dwsin o'r llall.

Ond Lazarus, Lazarus, yw'r cwbl glywn ni heddyw—y cam y mae Lazarus yn gael ar law pob un. Pell fyddo oddi wrthyf i ysgrifenu un gair anghyfiawn nac angharedig am Lazarus na neb o'i frodyr. Y mae aml i Lazarus tlawd yn haeddu'r parch mwyaf a'r cydymdeimlad llwyraf, ond eto maddeuer i mi am awgrymu mai nid oherwydd ei dlodi yr aeth Lazarus i fynwes Abraham, ac nid oherwydd ei gyfoeth yr aeth Deifes i'r lle poeth.

Gall gair o adolygiad ar fywyd Deifes fod o wasanaeth fe allai i rai. Cafodd efe a ninau ein codi fyny ar yr un aelwyd, ac mor agos ag oedd yn bosibl dan yr un amgylchiadau—er mai efe yn unig aeth yn Deifes.

Nid oedd ein rhieni yn gyfoethog nac yn dlawd. Yr oeddynt uwchlaw eisieu oherwydd byw yn gynil a gofalus. Cawsom ninau fel pawb bob anogaeth i fuchedd dda ganddynt mewn ffordd o gyngor a chyfarwyddyd ac esiampl, a phan ddaethum yn ddigon hen, cawsom ein danfon allan un ar ol y llall, i enill ein bywioliaeth. Gan mai Deifes oedd yr hynaf, efe gafodd ei ddanfon allan gyntaf, a chofiaf yn dda ei falchder mawr pan ddygodd ei gyflog adref, am y tro cyntaf, nid oedd yn llawer—ryw swllt y dydd, arferai nhad adrodd cyngor Benjamin Franklin yn fynych wrthym ni blant —y ffordd at gyfoeth yw enill swllt y dydd a byw ar chwe' cheiniog. Ac er nad orfu i Deifes erioed fyw ar chwe' cheiniog y dydd, ac na theimlodd erioed yr angen am hyny, anghofiodd ef byth o'r cyngor. Enillai ragor a chynilai ragor mewn cymhariaeth bob blwyddyn, a phob blwyddyn yr oedd y rhywbeth rhagor hwnw yn myned i ryw wasanaeth, a phob yn ychydig fel yr oedd yn parhau i ymgyfoethogi, yr oedd yn gallu rhoi rhagor o waith a chynaliaeth i ragor o bobl. Ni chadwai ddimai byth yn segur. Nid wyf yn gwybod am un ffordd well i ddefnyddio cyfoeth na'i osod ef allan fel hyny i helpio eraill i helpio eu hunain, ac ar yr un pryd i gadw eu hanibyniaeth. Felly y credai fy mrawd ; a chan mai efe wnaeth y cyfoeth—o leiaf buasai heb ei wneud hebddo—ganddo ef yn gyntaf ac yn benaf, dybiaf fi, oedd yr hawl i benderfynu beth i wneud ag ef.

Gallwn addef, wrth gwrs, y perthyn i gyfoeth ei ddyledswyddau yn ogystal a'i ragorfreintiau, ac eto wedi'r cwbl dywedwn na allwn ni ddim llai na chaniatau mai i'r perchenog y perthyn yr hawl flaenaf i benderfynu i ba gyfeiriad y mae'r cyfoeth i fyn'd. Os byddaf fi yn enill pum swllt ar hugain yr wythnos, yr wyf yn dal nad oes gan neb arall hawl i benderfynu sut y maent i gael eu gwario. Nid wyf yn amheu'r hawl i eraill gredu nad yw Deifes na minau yn gwneuthur y defnydd goreu a doethaf o'n henillion, ond yr wyf yn gwadu'n bendant hawl neb i drefnu fy arian i.

Y mae'n dreth drom ar fy yspryd ambell bryd wrth glywed y modd y mae Deifes yn cael ei drin. Nid wyf yn honi am foment ei fod yn batrwn o berffeithrwydd ; ond paham yr anwybyddir mor hollol y lles dirfawr a wnaeth dros ei gyd-ddyn ? Ni chyfrifir ei wasanaeth ef yn ddim. Y ni, meddai dynion, y ni sydd wedi ei wneud ef y peth yw ; ein dwylaw ni gasglodd ei gyfoeth iddo, heb ein gwasanaeth ni—beth fuasai ? Golwg un ochrog iawn ar bethau ydyw hona. Fe wnaeth y dwylaw eu rhan mae'n wir, nid oes eisieu amheu hyny, ond fe wnaeth y mandrel ei ran hefyd. Wrth gwrs, wrth gwrs. Ond a oedd yna ddim rhagor yn gwasanaethu ? Paham yr anwybyddir y pen. Ni fyddai'r dwylaw a'r mandrel o fawr cyfrif yn absenoldeb y pen. Fe fyddai'r miliwn heb ei wneud heb y miliwnydd y tu cefn iddo. Rhaid wrth y pen er gwneuthur gwasanaeth y dwylaw a'r mandrel o werth. Y mae yna hen stori yn Chwedlau Esop ddyry wers o bwys ar y mater hwn. Fe'i priodolir os cofiaf yn iawn i Menenius Agrippa :—

Yn yr hen amser gynt pan yr oedd yr aelodau i gyd yn medru siarad, galwyd cyfarfod, i gymeryd mater y Bol dan ystyriaeth. Y oedd y Bol yn cael gormod o chwareu teg. Ar ol amryw o areithiau hyawdl penderfynwyd myned allan ar streic yn erbyn y Bol. Yr oedd yn groes i bob synwyr ac i bob chwareu teg eu bod hwy yn gorfod gweithio yn galed bob dydd, tra'r Bol yn gwneud dim ond gwario a gwastraffu holl ffrwyth eu llafur hwy ar ei hen goluddion diffrwyth. Pallodd y dwylaw a'r traed, y genau a'r danedd, &c., wasanaethu. Parodd y streic cyhyd ag y gellid disgwyl i beth o'r fath bara, ac yr oedd hyny hyd nes y gwelsant eu hunain yn dihoeni ac wedi myned braidd yn ddim ond croen ac esgyrn ; yna rhoisant i fewn. Yr oeddynt wedi deall o'r diwedd nad oedd modd gwneud heb y Bol, fod hyd y nod y Bol o ryw wasanaeth.

Credaf fod cenfigen ffol a diystyr wrth wraidd llawer o'r cwynion ddygir yn erbyn Deifes. Dywedir llawer nad yw wir, a pheth nad yw yn werth sylw. Clywais ei feio am dalu pymtheg swllt—tua swllt yr un —am bwys o syfi—*first of the season.* Pa niwed mawr oedd yn hyny os oedd yn dewis gwneud? Gallai ei fforddio, ac ar yr un pryd yr oedd yn gwneud cymwynas a'r gwerthwr. A fyddai'n well iddo gadw'r arian yn y tŷ yn segur. Pan welodd y Napoleon Cyntaf gynt y delwau arian o'r apostolion mewn rhyw eglwys ar y cyfandir, gorchymodd eu tynu i lawr, eu toddi, a'u bathu; a'u gyru o amgylch i wneud daioni fel y gwnai'r apostolion gwreiddiol. Cymwynaswr i'w wlad yw'r dyn sydd yn gyru pob ceiniog ar daith o ddefnyddioldeb, ac nid ei osod mewn napcyn a'i guddio o'r golwg.

Dro arall clywais ei feio ei fod yn gyru yn ei fodur tra'r oedd ei frodyr druain yn gorfod ymdrabaeddu trwy'r baw. Dyna'n gywir fuasent yn ei wneud, pe bai yntau hefyd ar draed. Ond gadewch ini fod yn rhesymol. Os yw wedi talu am ei fodur, yn mha le daw'r pechod i fewn? Rhoddodd y mil punau gostiodd y modur foddion cynaliaeth i rywrai ond odid, a sicr yw fod y gyrwr—y *chauffeur*—yn cael cyflog dda.

Ni fyddai yn un niwed i ni gofio hyn, nad yw cyfoeth ddim yn fendith digymysg. Ar y cyfan, i'm tyb i, y gweithiwr ar gyflog yw'r dyn dedwyddaf yn y byd. Wedi gorphen ei ddydd gwaith mae ei drafferth ef ar ben; tra'r meistr yn cario ei drafferth, a'i ofal, a'i bryder gydag ef i bob man. Clywais Deifes yn adrodd iddo un diwrnod gwlawog gwrdd a dwy o'r merched oedd yn gweithio tano yn dychwelyd adref yn wlyb i'r croen ond yn canu mor ddiofal ac mor ddedwydd a'r aderyn ar frig y pren; tra'r oedd ef ei hun yn llawn pryder sut i gael y ddeupen yn nghyd. Rhoddai lawer pe gallai feddu calon mor ysgafn ag oedd gan y ddwy ferch.

Nid yn y cyfoeth mae'r dedwyddwch. Doeth y canodd Robert Burns:

It's no in titles, no in rank,
It's no in wealth like Lon'on bank,
To purchase peace and rest;
It's no in makin muckle mair,
It's no in books, its no in lear,
To make us truly blest.

If happiness has not her seat
And centre in the breast,
We may be wise, or rich, or great,
But never can be blest.

Perthyn i gyfoeth ei fanteision a'i anfanteision; yn sicr nid yw yn fendith digymysg. Nid yw yn ffafriol i hirhoedledd; yn y *Workhouse* yn benaf y mae'r dynion sydd yn byw hyd yn gant. Nid yw yn ffafriol i iechyd cryf. Llawer i ddiwrnod y gwelais fy mrawd yn dychwelyd adref i giniaw, ac er cystal y moethau ar y bwrdd, yn methu cwrdd â thamaid; a gofynwn i mi fy hunan, Pa un gwell bwrdd llawn a dim ystumog at ddim sydd arno, neu ynte ystumog wancus a dim bwyd ar ei gyfer, a chyda hyny mi gofiwn am gais Agur mab Jaceh, "Na ddyro i mi na thlodi na chyfoeth; portha fi â'm digonedd o fara," *Diarhebion 30 : 8.*

Nid yw wedi bod yn mwriad ysgrifenydd y llinellau hyn i osod pob miliwnydd yn mhlith y seintiau. Gwyr nad yno y mae lle rhai o honynt. Rhywbeth tebyg i hyn oedd geiriau Jay Gould ychydig cyn ei farwolaeth:— "Er yn filiwnydd lawer gwaith drosodd y mae cri wylofus a melldithion y bobl ddinystriais ar fy ol bob amser, fel nad wyf yn gwybod er ys blynyddoedd beth yw munyd o hapusrwydd." Ond nid dyna garitor pob miliwnydd, a diolch am hyny. Dyma dystiolaeth y Parch. Robert Collyer yn angladd Peter Cooper,—"Yr oedd yn ddyn caredig, hael a dedwydd; yr oedd yn filiwnydd, ond nid oedd yr un doler yn ei feddiant na allasai fyned i fyny a hi yn ddibryder ar dor ei law, a'i gosod ar allor yr orsedd wen fawr! Oes, y mae cyfoethogion a chyfoethogian, tlodion a thlodion. Y dyn wedi'r cwbl yw'r peth mawr.

Dichon y tybia ambell i ddarllenydd fod gorganmol wedi bod ar Deifes yn y llinellau hyn. Gallwn ddweyd yn onest, nad dyna yw amcan yr ysgrifenydd, eithr yn hytrach i osod gair gerbron o blaid chware teg, a heddwch, a chymydogaeth dda. O'r tu arall, ni fyddai dim yn well ganddo na gweled rhywun eto gyda chenad y Gol. yn cymeryd yr ysgrifell mewn llaw ac yn dweyd y gore fedr am Lazarus a'i frodyr. Yr eisieu mawr heddyw fel pob amser arall yw dwyn y dosparthiadau yn agosach at eu gilydd, a thuag at hyny yr un peth angenrheidiol yw cydymdeimlad. Cydymdeimlad—sylwer mai dyna'r gair diweddaf syrthiodd dros wefusau Syr Thomas Noon Talfourd wrth anerch y *Grand Jury* yn *Assizes* Stafford yn 1854. Gair ardderchog yw, ond gyda ei fod yn ei ddweyd, fe syrthiodd yn farw yn y fan. Dyma ran olaf yr anerchiad :—" Pe gofynid i mi beth yw angen mawr cymdeithas, er cysylltu dosparth yn fwy agos at ddosparth, mi ddywedwn mewn un gair, yr angen mawr yw—CYDYMDEIMLAD ! "

BEN HADAD.

CONGL YR AWEN.

ENGLYNION

I'r Diweddar Mr. John Williams, Tangraig-fach, Cwrtnewydd.

Tan nudd oer Cwrtnewydd aeth—a'i chalon
A chwalwyd gan hiraeth ;
O'i llaw wen hir colli wnaeth
Un mawr a diymyraeth.

Cu wr craff oedd Jaci'r crydd,—a thyner,
Coeth, uniawn, llaw-gelfydd :
Mewn eisiau'n gymwynasydd—
A'i loyw daith fel goleu dydd.

Yng Nghapel 'Bryn yn llawn yni,—didwyll
Undodwr oedd Jaci
A blaenor ; byw oleuni
Ar Dduw Ner roddai i ni.

Gonestrwydd, heb glog anhawsdra,—llyw fu
I'w holl fywyd yma ;
Yn ei fedd ni ddarfydda
Ei wen daith—na'i enw da.

GWARNANT WILLIAMS.
Cwrtnewydd.

Tangraigfach : tòn o gur rhawg fydd—trosto,
Tristwch yn Nghwrtnewydd ;
Gwr cryf o gaerau crefydd
Droe i'w fedd oer,—darfu 'i ddydd.

" Jaci'r Crydd " ! Câr cywir heddwch,—a mab
Mewn pwyll a dyddanwch ;
Y gwr oedd lawn brawdgarwch
O'i deml a aeth,—dyma'i lwch.

Di-drwst, diwyd, drwy 'i oes dawel ;—un oedd
Yn addurn i Gapel
Y Bryn o hyd,—a briw wnêl
I'r hoff wron roi ffarwel.

Ond Ha ! Gall byd o gell bedd—glywed teg
Alwad daer ei fuchedd :
Fry, 'mro siriol gorfoledd,
Mae hwnt oes, ym mintai hedd.

DAVID R. DAVIES, C.M.,
Cwrtnewydd. (*Cledlyn*).

PUMP PENILL

I'r Diweddar Herbert Emlyn Evans, Ffynonfair.

Buddugol yn Nghyfarfod Cystadleuol Capelygroes, Ion. 6, 1909.

Yn lle'r cwmwl gwyn fu'n hofran
Yn awyrgylch ei nen glaer,
Cwmwl tywyll, hir, a llydan,
Dduodd wybren Ffynonfair :
Marw wnaeth ei Herbert Emlyn,—
Bachgen dillyn iawn ei foes,
Llwybrau rhinwedd er yn blentyn
A wnaeth ddilyn drwy ei oes.

Er cael llu o gymhelliadau,
Gwyliai'i droed cyn rhoddai gam;
Cadw wnaeth tu fewn i ffiniau
Dymuniadau tad a mam :
At ddaioni ymestynai,
Gyda chrefydd cai fwynhâd,
I Caeronen cyson deithiai
Ar y Sul yn llaw ei dad.

Pan wnaeth bysedd meinion amser
Agor emrynt wen ei oes,
Symud wnaeth, a theimlai'n bleser
Gario baner Capel-groes ;
Yn ei gartref a'r addoliad
Bu yn fachgen diwyd, call,
Ac o'i enau byddai'n eithriad
Glywed gair yn uwch na'r llall.

Mor ddiniwed oedd a'r glomen,
Tyner fel y feiriol chwa ;
Yn ei natur planwyd elfen
Gyfansoddai 'i fuchedd dda :
Bywiog oedd yn ngwanwyn bywyd,
Hoen a ddawnsiai ar ei rudd ;
Ond er hyny, 'i haul wnaeth fach-
Cyn cyrhaeddyd haner dydd.[lud

Capel-groes a amddifadwyd
O addawol golofn glaer,
A theimladau gwresog ddrylliwyd
Ar hen aelwyd Ffynonfair :
Hwylio wnaeth yn ei arddegau--
Fry o afael poen a chur;
Trefniad Duw oedd bedd ac angeu
Er lleshad i'w fuchedd bur.

GWARNANT WILLIAMS.

GWYL DEWI, 1909.

Gwlad y Geninen werdd, pa ryw gerddi
Y sydd gan farddas yn addas iddi ?
Yn y byd helaeth a oes yn bodoli
Neb o Walia nas cân is cyni
Glod i orenwog wlad ei rieni ?—
Nas gwel ar brydiau er pob pryderi
Hen fro y delyn i'w hyfrydoli.
Yn mhob ryw breswyl mwy anwyl ini
Fo Gwalia lanaf a'i gwyl eleni.
Bryniau'r Aran a bron Eryri
Gwaelion eu tyfiant, a glannau Teifi,
A broydd tawel aberoedd Tywi,
Yn ein miloedd cydunwn i'w moli,
Ein gwlad firain, O mynwn glodfori.
Agorwn ddrws i gewri—Gwalia wen
Ddiddig wlad awen ar Ddydd Gwyl Dewi.

S.

GWEDDI.

Fy nefol Dad, O bydded imi,
Tra bwyf ar daith y fuchedd hon,
Yn ffyrdd dy gariad a'i oleuni
Fyth rodio'n ddiwyd ger Dy fron ;
A'r gwir dangnefedd yn fy nghalon,
A'r byd yn mhell o'm golwg i,
A'm holl serchiadau'n bur nefolion,
Par imi'n ddoeth dy ddilyn Di.—*Iolo Morganwg.*

MARWGOFION.

IONAWR 18, yn 73, Llewelyn St., Aberdar, Mary, gweddw David Davies, gynt o'r Gelli-isaf, yn 73 oed. Trist iawn yw gweled colofnau'r achos crefyddol yn syrthio un ar ol y llall; ac yr oedd Mary Davies yn un o'r cadarnaf o'r cyfryw yn yr Hen Dŷ Cwrdd, lle'r oedd wedi bod yn aelod ffyddlon er yn blentyn. Eithriadol hyd yn ddiweddar oedd ei gweled hi yn absenol o'i chydgynulliad unrhyw amser. Mynychai'r ysgol gân tra gallai ganu, ac hyd y diwedd bron bu'n ffyddlon i'r Ysgol Sul, ac i'r Gymdeithas Ymdrechol. Fel hyn y gadewir i ni adwyau ac ni wyddom i ba le i edrych am ffyddloniaid eraill i'w llanw. Gedy Mrs. Davies ferch a dau fab ac wyrion ar ei hol—llawer o honynt yn aelodau gweithgar yn yr eglwys. Mab iddi yw y Parch. W. J. Davies. Gwasanaethwyd yn yr angladd dydd Iau gan y Parchn. J. Hathren Davies, D. G. Rees, a J. Grawys Jones (C.).

Yn ffyddlon buost yn dy ddydd
I ddynion ac i Dduw;
Ac er dy golli mae ein ffydd
Dy fod o hyd yn fyw—
Yn fyw yn awr yn llys y Ne'
Ond pwy gawn ni i lanw'th le?

Chwef. 7fed, yn y bore, traddododd y gweinidog y bregeth goffadwriaethol, a chwareuwyd y "Dead March" gan Mrs. Williams.

IONAWR 26, yn bedwar mis oed, John Walter, baban Mr. a Mrs. Jenkins, Glanwern, Llanfihangel Ystrad. Claddwyd y Sadwrn canlynol yn mynwent Rhydygwin. Gwasanaethwyd gan y gweinidog. "Myfi a af ato ef."

IONAWR 29, Gwenllian Thomas, Gwarcwm, Llanwnen, yn 86 oed. Gwelodd ddyddiau lawer, y rhai a dreuliwyd ganddi yn y lle uchod; a bu yr oll iddi yn ddyddiau llawn o ddiwydrwydd, hyd yr analluogwyd hi gan wendid henaint yn y blynyddau diweddaf. Gadawodd i alaru ar ei hol un ferch a phedwar mab. Yn ei chystudd olaf cafodd bob gofal a thynerwch fedrai ei merch roddi iddi. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Capelygroes dydd Mercher canlynol. Darllenwyd a gweddiwyd yn y tŷ gan y Parch. J. Davies, a chyflawnwyd y gweddill o'r gwasanaeth gan weinidog y lle. Pregethwyd yn y capel oddiar Galarnad i. 12.

IONAWR 29, yn No. 5, Seymour Street Aberdar, bu farw Mr. Evan Davies, ychydig yn fyr o gyrhaedd ei 68 mlwydd oed. Yr oedd wedi bod yn gystuddiol am yn agos deng mlynedd,—yn dioddef oddiwrth yr asthma. Er hyny elai allan ychydig bron hyd y diwedd. Arferai gyrchu i'r Hen Dŷ Cwrdd pan allai. Yn absenoldeb y gweinidog o herwydd afiechyd gwasanaethwyd yn yr angladd dydd Mawrth gan y Parch. David Williams, Curad St. Mary, lle'r arferai ei weddw gyrchu.

CHWEFROR 5, yn 80 oed, Mrs. Elizabeth Jenkins, anwyl briod Mr. John Jenkins, Glaslwyn, diweddar o Gwarllwynoidos, Llandyssul. Hanai yr ymadawedig o linach nodedig ac enwog yn nghanolbarth Ceredigion, ac yr oedd aml rinweddau'r tadau wedi cael lle amlwg yn ei bywyd. Yr oedd yn nith i'r diweddar Barch. Rees Davies, Capelygroes, yn gyfnither i'r diweddar Barch. Thomas Thomas, Y.H., Pantdefaid, ac yn chwaer i'r diweddar Thomas Evans, Porth Hotel, haelioni a charedigrwydd yr hwn sydd ar gof a chadw y rhai a'i hadwaenent. Ac nid rhyfedd fod Mrs. Jenkins yn anwyl gan gylch eang ei hadnabyddiaeth. Benyw lawn mewn ardal ydoedd, llawn ar yr aelwyd a llawn yn yr eglwys. Bu yn un o golofnau penaf eglwys Pantdefaid ar hyd y blynyddoedd, yn nodedig am ei ffyddlondeb a'i haelioni hyd nes i henaint a llesgedd araf

i'w chaethiwo i'w chartref. Erys ei choffadwriaeth yn felus yn y gymydogaeth, a bydded ei symudiad i fod yn ddylanwad i wneud yr hyn oedd yn anwyl ganddi yn anwyl hefyd gan ei pherthynasau a phawb. Gadawodd mewn galar mawr, briod mewn unigedd, dwy ferch ac wyrion. Nodded y nef fyddo drostynt. Y dydd Llun dilynol claddwyd yr hyn oedd farwol o honi yn Mhantdefaid. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca ; pregethwyd yn y capel gan y gweinidog, a gorphenwyd ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins.

CHWEFROR 19, Owen, mebyn Mr. D. Davies a Mrs. Davies, Tref Gynghorwr, Peterwell Terrace, Llanbedr. Ganwyd Ionawr 20, a bu farw ar y dydd uchod.

CHWEFROR 19, yn 84 oed, David Jones, Gof, Prengwyn, Llandyssul. Cymeriad nodedig o wreiddiol ydoedd "Deio'r Gof" fel ei adnabyddid, parod ei reswm a ffraeth ei ateb parod. Treuliodd ei oes faith yn ngymydogaeth Pantdefaid, a bydd gwedd ddieithr ar y lle mwy heb ei bresenoldeb ef. Y mae hen gymeriadau dyddiau ys llawer dydd yn cyflym gilio o'r golwg, ac nid oes ond ambell un yma a thraw wedi ei adael ar ol. Yr oedd yr ymadawedig yn un ag oedd yn hoff gan bawb, ar gyfrif ei ddiniweidrwydd a'i ewyllys da. Claddwyd ef y dydd Llun canlynol yn mynwent Pantdefaid. Cyflawnwyd y gwasanaeth gan y gweinidog yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. Jones, Carmel. Gadawodd briod, dau fab a merch mewn galar ar ei ol.

CHWEFROR 21, Hannah Jones, Pencaeau-uchaf, Pencarreg, yn 83 mlwydd oed. Ar ol bywyd hir a chystudd lled faith, ac wedi ymladd a llu o anhawsderau, ac wedi yfed llawer cwpanaid o ddyfroedd Mara, cyrhaeddodd o'r diwedd derfyn eithaf ei thaith ddaearol ar y dydd uchod. Merch ydoedd i Abraham, Fronfelen gynt, ger y Cribyn, ac yr oedd yn un o lawer o blant, ond hi oedd y diweddaf o honynt yn fyw. Yr oedd yn fam i nifer luosog o blant a'r nifer luosocaf o honynt wedi rhydio'r Iorddonen o'i blaen, ond cafodd Dafydd ei mab a'i briod y fraint a'r anrhydedd o weini arni'n ei chystudd olaf a gwnawd hyny ganddynt mewn modd teilwng o bob canmoliaeth. Yr oedd yn aelod o eglwys Brondeifi. Gadawodd lawer o berthynasau, yn blant ac yn wyrion, heblaw perthynasau eraill, mewn galar ar ei hol. Gwasanaethwyd yn y tŷ ar ddydd ei hangladd gan ei gweinidog yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. Jones (B.), a chladdwyd ei gweddillion yn mynwent eglwys Llanwnen a'r offeiriad yn gwasanaethu.

MANION AC HANESION.

ADRAN YR YSGOL SUL. — Mae casgliad yr Ysgolion Sul yn awr yn ddyledus. Nid oes ond ychydig iawn o lyfrau wedi cael eu gwerthu eleni gan eu bod yn meddiant y plant oddiar y llynedd. Gobeithio y cofia'r ysgolion wrth gasglu ein bod felly yn dybynu bron yn llwyr ar y casgliadau i gyfarfod a'r treuliau yn nglyn a'r Tystysgrifau, &c. Araf iawn y bu y casgliadau yn dod i mewn llynedd. Gobeithio y cawn welliant eleni.—*L. W., Ysg.*

ALLTYPLACA.—Chwefror y 24ain, anrhegwyd deiliaid Ysgol Sul y lle uchod â gwledd o de gan Mr. a Mrs.

Evans, Ffinantganol, a Mr. a Mrs. Davies, Inglis Cottage. Daeth nifer luosog yn nghyd a mwynhawyd y danteithion yn rhagorol. Yn yr hwyr cynhaliwyd cyfarfod cystadleuol o radd uchel ; pan y cadeiriwyd yn fedrus gan Mr. Lewis Thomas, Brynhafod. Arweiniwyd a beirniadwyd yr adroddiadau gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, a'r farddoniaeth a'r gerddoriaeth gan y Parch.T.Eli Evans, Cellan. Gwnaeth y ddau eu gwasanaeth yn foddhaol. Trodd y cyfan allan yn llwyddianus iawn. Yr unig ddiffyg oedd fod y capel lawer yn rhy fach i gynwys y dyrfa'n gysurus.

CWRTNEWYDD.—*Gwyl.*—Cynhaliodd Ysgol Sul Capel-y-Bryn ei gwyl dê a'i chyngherdd blynyddol ddydd Gwener, Chwefror 19. Yr oedd yr hin yn ddymunol, a daeth nifer luosog at eu gilydd i fwynhau y wledd ardderchog ddarparwyd ar eu cyfer gan Mr. a Mrs.T. G. Williams, Gwarnant. Yn yr hwyr, ymgynullodd tyrfa i'r capel, a chafwyd cyfarfod dyddorol a phlesurus o dan lywyddiaeth y gweinidog. Arweinid y cwrdd yn hylaw gan y brawd ieuanc ac ymroddgar, Mr. T. Oswald Williams, Gwarnant. Trosglwyddwyd anrhegion o lyfrau gwerthfawr (rhoddedig gan y Dr. D. J. Davies, Glasgow) i'r ugain dysgybl oedd wedi mynychu yr Ysgol Sul oreu yn ystod y flwyddyn 1908. Diolch i ymdrechion yr athrawon, ac i gynorthwyon o'r fath yma—yn wleddoedd ac yn wobrau—mae yr ysgol yn y lle ar hyn o bryd yn fwy blodeuog nag y gwelwyd hi ers blynyddau lawer.

PANTDEFAID.—Chwefror 24, cynhaliodd yr eglwys hon ei gwyl de a'r cyngherdd blynyddol. Yn unol ag arferiad sydd yn hen a derbyniol, rhoddwyd y wledd i aelodau'r Ysgol Sul a chyfeillion yr achos eleni gan Mrs. Jones, Pantmoch, a'i mhab Mr. Jenkin Jones, C.C.,Y.H. Gwnaeth llu mawr gyfranogi o'r pethau da ddarparwyd, a bu'r gwragedd a'r merched ieuainc yn unol a'u parodrwydd yn cynorthwyo yn mhob modd. Cafwyd hin ddymunol yr hyn fu'n help i wneud y cyfan mor llwyddianus. Cadeiriwyd yn nghyfarfod yr hwyr gan Mr. Jenkin Jones, Y.H., a chafwyd ychydig eiriau pwrpasol ganddo ar y dechreu. Aeth y plant ac eraill drwy raglen faith o adroddiadau, dadleuon, &c., a chanwyd amryw donau a chanigau gan gôr y plant o dan arweiniad Mr. D. Davies, Gwarcefel Arms, a chôr y lle o dan arweiniad Mr. L. T. Thomas, Gyfeile. Anrhegwyd plant yr Ysgol Sul a gwobrwyon am eu ffyddlondeb. Cyflwynwyd hwy i'r plant dros yr Ysgol Sul gan Mr. Evan Jones, Lodge. Gwobrwyodd Miss Jennie Thomas, Cross Roads a Miss Mary Jones, Pennant eu dosparth hwythau am fynychiadau cyson. Yn ystod y cyfarfod cyflwynwyd dros y gynulleidfa gan Miss Jones, Brynowen, gòd o aur i Mr. Evan Jones, diweddar o Green Park, yn awr Y Bryn, Llanybyther, am ei wasanaeth hir a ffyddlawn fel chwythwr yr Organ. Ar y diwedd cynygiwyd pleidlais o ddiolchgarwch gan y gweinidog ac eiliwyd gan Mr. David Thomas, Cloth Hall, i'r cadeirydd a'i fam am eu caredigrwydd tuag at yr Ysgol Sul, ac i bawb fu'n cynorthwyo mewn unrhyw fodd, ac ymwahanwyd yn amserol wedi treulio dydd wrth ein bodd.

GRAIG, LLANDYSSUL.—Sul cymundeb diweddaf derbyniodd y gweinidog chwech o aelodau newyddion i'r eglwys hon.

CAPELYFADFA. — Nos Wener, Chwefror 5ed, cynaliodd ysgol Sul y lle uchod ei chyfarfod llenyddol, a chafwyd noson ddyddorol. Cadeiriwyd gan Mr. T. G. Thomas ac arweiniwyd gan y Parch.E. O. Jenkins. Yr oedd y capel yn llawn a phawb yn llon. Yn ychwanegol at adroddiadau a chaneuon cafwyd cystadleuaethau mewn adrodd a chanu a bu y Parch. T. A. Thomas mor garedig a dod i fyny o Landyssul i feirniadu. Yn ystod yr hwyr trosglwyddodd Mr. David Thomas, arolygydd yr Ysgol Sul, 64 o lyfrau i'r plant am eu ffyddlondeb yn yr ysgol.

LLWYNRHYDOWEN.—Nos Wener, Chwefror 12, cynaliwyd cyngherdd

hwylus iawn yn yr hen gapel. Er's blynyddau meithion mae y gynulleidfa hon yn cadw cyngherdd ar nos Nadolig ond y tro yma gohiriwyd o barch i'r diweddar Cadben Davies. Cyngherdd y Nadolig ar noson arall oedd hwn ac yr oedd yn llwyddianus iawn. Yn ychwanegol at y glees gafwyd gan bartion lleol cafwyd cynorthwy Miss M. J. Jones, Mr. Evan Davies, Mr. Idwal Jones, o Lanbedr, a Mr. Tom Thomas, o Pencader—yr oeddynt ar eu goreu.

YR YMOFYNYDD YN Y LLYFRGELL GENEDLAETHOL.—Ar y 1af o Ionawr diweddaf agorwyd drysau y Llyfrgell Genedlaethol Gymreig yn Aberystwyth er derbyn i fewn yr amrywiol gasgliadau o lyfrau a addewsid eu trosglwyddo i fod yn eiddo i'r genedl; a dyddorol gan ein darllenwyr fydd deall mai un o'r cyfnodolion cyntaf i gael lle yno ydoedd cyfres gyflawn o'r YMOFYNYDD yr hon a roddwyd gan y Parch. George Eyre Evans. Gwneir y gyfres i fynu o 50 o gyfrolau, wedi eu rhwymo gan y *Guild of Women Binders*, a chynwysa bob rhifyn o'r cychwyniad yn 1847 i lawr hyd ddiwedd 1906 yn nghyd a'r holl amleni a'r atodleni, a cheir yn y rhifynau lawer o nodiadau min-ddalenol yn llawysgrif rhai o'r gohebwyr. Gosodwyd sylfaen y gyfres hon gan un o'r hen olygyddion—yParch. Proff. D. L. Evans, o Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin, yr hwn hefyd oedd un o sefydlwyr y cyhoeddiad ac a ysgrifenai iddo ar y dechreu dan yr enw "Philo." Ar ol ei farwolaeth yn 1902, wedi cyrhaedd o hono yr oedran patriarchaidd o 90 mlwydd, ni arbedodd ei fab unrhyw drafferth i wneud y gyfres yn berffaith gyflawn, fel y gallai y Llyfrgell Genedlaethol feddu y goreu a fedrai Mr. Eyre Evans roddi i'r Dywysogaeth. At hon hydera yn fuan ychwanegu y ddwy gyfrol o *Athraw* ei hen ysgolfeistr, Gwilym Marles.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

Cynhelir CYFARFODYDD CHWARTEROL yr uchod yn Mhantdefaid, MAWRTH a MERCHER, MAWRTH 30 a 31.

Trefn y Cyfarfodydd:—NOS FAWRTH am 7, dechreuir y cwrdd gan y Parch. E. O. Jenkins, yna ceir anerchiadau gan Mr. John Harrison, a'r Parch. T. P. Shedding (Missionary Agent) ar "Unitarianism as a Missionary Faith" (Undodiaeth fel Ffydd Genhadol). Dilynir hwy gan eraill.

BOREU MERCHER am 9, cyferfydd y Pwyllgor. Am 10.30, dechreuir y gwasanaeth gan y Parch. R. C. Jones, a phregethir gan y Parch. R. J. Jones, M.A., a darllenir papyr gan Miss Helen Brooke Herford, ar "What Women may do for our Churches?" (Beth all Benywod wneud dros ein Heglwysi). Bydd y cwrdd hwn yn agored i eraill siarad fel y byddo amser yn caniatau.

Am 2.30, dechreuir gan y Parch. Lewis Williams, a phregethir gan y Parch. W. G. Tarrant, B.A., a John Davies, Alltyplaca.

Am 6 o'r gloch, Cwrdd Cyhoeddus. Cadeirydd, Mr. J. R. Thomas, Pontshan. Dechreuir gan y Parch. David Evans. Siaradwyr—Mr. John Harrison, "The aims and work of the British and Foreign Unitarian Association"; y Parch. W. Copeland Bowie, "Unitarians and the Education Question"; Mr. Ion Pritchard, "The Future of our Sunday Schools"; y Parch. W. G. Tarrant, B.A., "The Trend of Modern Thought concerning Religion." Disgwylir y bydd y gweinidogion Cymreig hefyd yn cymeryd rhan yn yr oll o'r cyfarfodydd.

Estyna eglwys Pantdefaid a'i gweinidog groesaw calonog i bawb.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR. THOMAS & BROS., Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH,

FLORIST AND SEEDSMAN, . .

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq. W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Shopping by Post.

By means of our specially organised Post Order Department the Shopping Facilities enjoyed by Town Residents are at the disposal of those who live in the Country Districts, the resources of our huge establishment are, in fact, brought as near as the Nearest Pillar Box.

All orders dispatched, wherever possible, same day as received. No order too large for execution, none too small to receive attention.

Ben Evans & Co. Ltd.,

"THE HOUSE FOR QUALITY,"
SWANSEA.